# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 13eg Mai 2019

Presennol: Robin Williams, Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Alan Hughes, Henry Huws, Humphrey Williams.
Ymddiheuriadau: Seimon Glyn, John Davies, Gary Owen, Richard Williams.

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:
a. Archwyliad mewnol – dywedodd y Clerc ei bod wedi cyflwyno'r cyfrifon i'r Archwylwyr Mewnol ac yn diwgwyl ymateb.

b.Cais Drws I Ddrws. Cafodd y Clerc ymateb gan Meinir Jones o Ddrws I Ddrws yn adrodd nifer defnyddwyr y gwasanaeth o ardal y cynogr o fewn y flwyddyn diwethaf – roedd 187 wedi defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y Clerc y dyddai'n ebostio adroddiad arianol Drws I Ddrws i'r Cynghorwyr fel eu bod yn gallu ystyried y cais pan yn rhannu'r cyfraniadau nesaf.

c. Llwybyr ger Glan Dwr Dinas. Cafodd y Clerc y mapiau gan y cyn Glerc Glenys Peters, ond yn anffodus rhai du a gwyn oedd rhain. Bydd y Clerc yn cysylltu a Glenys Peters I geisio gwybod ble mae'r mapiau lliw.

ch. Elusen John Edwards/Llain Fatw. Adroddodd y Cadeirydd Sian Parri eu bod yn bwriadu cael cyfarfod cyn diwedd y mis.

4. **Gohebiaethau:**

a. Derbynniodd y Clerc lythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ein gwybyddu fod y BDO wedi codi ychydig yn ormod ar gynghorau am y Gwaith archwylio 2016/17 a 2017/18. Os yw hyn yn wir i Cyngor Cymuned Tudweiliog yna gallwn ddisgwyl derbyn credyd yn erbyn costau archwyliad eleni.

b. Derbynbwyd anfoneb John Tudor am cyfrifo PAYE a cyflog y Clerc yn fisol dros y 10 mis diwethaf - £100.00 – paswyd i'w dalu.

c. Derbynwyd anfoneb Cyngor Gwynedd am lenwi 3 bin halen dros y gaeaf - £165.60 – pasiwyd i'w dalu.

ch.Derbynwyd Rhaglen Waith Cyngor Gwynedd yn ein gwybyddu am wait har lon Brynodol, Tudweiliog am 8 diwrnod.

d. Derbynwyd llythyr gan Un Llais Cymru yn gofyn i'r Cyngor Cymuned ddewis a datgan cynrychiolydd fydd yn mynychi pwyllgorau cenedlaethol, rhanbarthol a sirol – pasiwyd mai Sian Parri fydd yn cynrychiloi'r Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn cadarnhau hyn gyda Un Llais Cymru.

dd. Derbynwyd papur pleidleisio 'Cynrychioli Un Llais Cymru ar Grwp Cyfeiriol Budd ddeiliaid Betsi Cadwaladr' – paswyd i Sian Parri edrych yn fanylach ar ddatganiadau'r ymgeiswyr.

e. Rhannodd y Clerc ffurflen tynnu allan 'Lwfans Cynghorwyr' i'r Cynghorwyr oedd yn bresennol.

f. Dywedodd y Clerc fod hanner preasept wedi ei dderbyn sef £3500.00

ff. Derbynwyd llythyr gan Un Llais Cymru yn rhoi y cyfle i'r Cyngor Cymuned gyflwyno ushafswm o ddau gynnig i'w trafod yn y Cyfarfod Blynyddol ar 5ed Hydref – paswyd nad oedd cynnig i'w gyflwyno.

g. Derbynwyd llythyr gan Adran Addysg Panel Apel Mynediad a Phanel Apel Gwahardd Disgyblion, yn gofyn am enwebiadau gan unigolion i fod yn aelod o'r paneli. Doedd neb am enwebu.

Ng. Cais Cynllunio C19/0149/46/LL Congl y Cae Llangwnnadol – Gorddatblygiad mewn ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, gan amharu ar fwynderau gweledol cefn gwlad, gan hefyd ychwanegu pryder mawr am y ffordd a'r fynedfa.

5. **Unrhyw fater arall**
Doedd dim mater arall.

CYNHELIR y CTFARFOD NESAF AR 10ed MediMenefin 2019
YNG NGHANOLFAN TUDWEILIOG AM 7.15yh